Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Y Felinheli
Caban Clyd
Ysgol Y Felinheli
Y Felinheli
Gwynedd
LL56 4TZ

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2012**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk



Ⓗ **Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 14/08/2012**

## Ynglŷn â'r cylch

Mae Cylch Meithrin Y Felinheli yn gylch cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i leoli yn Ysgol Gynradd Y Felinheli, Y Felinheli, Gwynedd. Daw'r holl blant sy'n mynychu'r cylch o'r pentref a'r ardal gyfagos. Yn gymdeithasol ac economaidd, cydnabyddir fod yr ardal yn freintiedig.

Mae'r cylch wedi ei leoli mewn caban ar safle'r ysgol ers 2008. Mae'r cylch yn rhannu'r caban a rhan o'r ardal allanol gyda'r ysgol.

Dywed y cylch daw bron pob un plentyn o gartrefi lle siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd. Mae'r plant yn cynrychioli'r ystod lawn o alluoedd ac mae'r cylch yn derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Nid oes un plentyn yn y grŵp cyfredol wedi'i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cylch wedi derbyn cefnogaeth gan asiantaethau allanol i gefnogi'r plant ag anghenion ychwanegol yn y gorffennol. Nid oes un plentyn o gefndir ethnig lleiafrifol ar hyn o bryd a daw neb o gartrefi sydd o dan anfantais gymdeithasol.

Mae'r cylch wedi'i gofrestru gyda'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru am uchafswm o 20 o blant ac yn derbyn plant o ddwy flwydd a hanner oed. Mae 22 o blant ar hyn o bryd yn mynychu'r cylch ar ryw adeg o'r wythnos. Mae 10 ohonynt, sy'n cael eu hariannu, yn dair blwydd oed. Mae'r Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol yn cefnogi'r cylch.

Mae'r arweinydd, yn ei swydd ers 2007. Mae dwy o'r staff yn cynorthwyo'r arweinydd yn llawn amser. Mae gan yr holl staff llawn amser y cymwysterau addas.

Ceir llyfryn sy'n llawn o wybodaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr, sy'n eu darparu â manylion perthnasol am y cylch. Daw rhieni a gofalwyr â'u plant i mewn i'r cylch sy'n gyfle i gael cyfarfod â'r staff os oes angen. O ddydd Llun i ddydd Iau, mae'r cylch ar agor rhwng 1.30yp ac 3.30yp ac 11yb tan 1yp ar ddydd Gwener.

Mae pwyllgor rheoli yn goruchwylio gwaith y cylch.

Arolygwyd y cylch diwethaf gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn 2011. Nid yw Estyn wedi arolygu'r cylch o'r blaen.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y cylch** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r cylch** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y cylch yn dda oherwydd:

- mae bron pob un plentyn yn dangos cynnydd ac yn cyflawni'n dda ymhob maes dysgu;
- mae bron pob un plentyn yn mwynhau dysgu ac mae ganddynt agweddau positif at ddysgu;
- mae bron pob un plentyn yn ymddwyn yn gyfrifol;
- mae'r profiadau dysgu yn cael eu cynllunio'n dda;
- mae'r holl blant yn cael eu cefnogi'n dda ac yn elwa o gwricwlwm sy'n eang, cytbwys a diddorol;
- mae'r addysgu'n effeithiol ac yn canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen;
- mae adnoddau da ar gael, sy'n cynnwys yr ardal tu allan diddorol;
- mae'r oedolion yn siarad Cymraeg yn dda iawn sy'n cael effaith gadarnhaol ar sut mae'r plant yn dysgu'r iaith;
- mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda;
- mae perthynas dda rhwng oedolion a phlant;
- mae perthynas a chyd-weithio da gyda'r ysgol sy'n rhannu'r safle a'r caban; ac
- mae'r staff yn cyd-weithio'n effeithiol, sy'n cyfrannu'n bwrpasol i lwyddiant y cylch.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r cylch yn dda oherwydd:

- mae'r arweinydd a'r staff yn darparu cyfeiriad clir i waith y cylch;
- dengys newidiadau a datblygiadau dros amser fod gan y cylch gofnod da o wella er lles y plant;
- mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn hunanarfarnol, gyda thargedau clir a chynllun datblygu pwrpasol ar gyfer gwelliannau;
- mae gan yr holl staff agwedd gadarnhaol a gweithredol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant;
- mae llinellau cymorth da yn cael eu defnyddio'n rheolaidd a'n synhwyrol;
- mae gwaith y pwyllgor rheoli dros gyfnod hir o amser yn dda iawn; ac
- mae'r amgylchedd dysgu'n ysgogol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r cylch:

A1 sicrhau fod asesiadau dyddiol yn arwain yn uniongyrchol at dargedau plant unigol; a

A2 datblygu'r cynllunio o'r meysydd dysgu ymhellach i sicrhau fod plant yn cael eu herio'n briodol yn y gweithgareddau ffocws.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y cylch yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
| --- | --- |

**Safonau: Da**

Mae safonau dechreuol bron pob un plentyn yn dda. Mae bron pob un plentyn yn cyflawni safonau da ac yn gwneud y cynnydd da ymhob maes dysgu wrth ystyried eu mannau cychwyn. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng safonau grwpiau gwahanol o blant yn y cylch.

Mae bron pob un plentyn yn gwneud cynnydd positif yn eu datblygiad o'u medrau llythrennedd yn yr iaith Gymraeg. Nid oes un plentyn yn anfodlon i ddefnyddio'r iaith ac mae bron pob un plentyn â dealltwriaeth dda o'r iaith. Mae gan bron pob un o'r plant fedrau gwrando sydd wedi'u datblygu'n dda. Adlewyrchir hyn wrth iddynt ystyried eu byrbrydau ac wrth iddynt chwarae rôl gyda'i gilydd. Mae bron pob un plentyn yn mwynhau clywed stori ac yn awyddus i gyfrannu i'r hyn a ddarllenir iddynt.

Mae bron pob un plentyn yn ateb cwestiynau yn frwdfrydig, sy'n dangos yn glir eu dealltwriaeth ddatblygol o'r iaith. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb yn synhwyrol i drafodaethau grŵp ac yn cyfrif yn hyderus gyda'i gilydd ac oedolion. Ychydig iawn o blant sy'n swil wrth ymateb. Nodwedd dda arall o'u gallu cynyddol yw'r ffaith iddynt ymateb gydag ychydig iawn o anogaeth i liwiau a rhifau. Gwelir enghreifftiau da o hyn yn yr ardal allanol wrth i'r plant drafod hwyaid yn y dŵr a lluniau ar lein ddillad.

Mae llawer o blant yn dewis edrych ar lyfrau yn annibynnol. Maent yn dal llyfrau yn briodol ac yn astudio lluniau a phrint gyda diddordeb. Maent yn adnabod prif gymeriadau mewn stori fel Mrs Wishi-Washi ac yn trafod cynnwys y stori yn frwdfrydig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu a nodwedd nodedig o'u hysgrifennu cynnar yw eu bod yn deall pwrpas ysgrifennu drwy dasgau ymarferol wrth beintio a chreu phatrymau â sialc. Maent, felly, yn gweld pwrpas i wneud marciau a'u hysgrifen gynnar. Mae tua hanner y plant yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau yn annibynnol ac mewn ffurf adnabyddus.

Mae bron pob un plentyn yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda drwy ddefnydd ymarferol o rif, drwy ddefnyddio geirfa fathemategol fel 'llai na' a 'fwy na', 'i fyny' ac 'i lawr' a thrwy ddefnyddio siapiau dau a thri dimensiwn. Mae bron pob un plentyn yn medru grwpio gwrthrychau o wahanol fathau yn ôl lliw, maint neu siâp.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio offer electronig yn effeithiol. Maent yn defnyddio camerâu digidol ar gyfer cofnodi ac yn defnyddio cyfrifiadur yn hyderus wrth reoli'r cyfarpar priodol. Mae'r holl blant yn mwynhau cymryd rhan mewn creu cerddoriaeth yn yr ardal penodol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o stôr o ganeuon a hwiangerddi Cymreig, gan eu canu gyda brwdfrydedd.

Mae bron pob un plentyn yn dangos diddordeb llawn ym mhob gweithgaredd ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau sylweddol o amser. Maent yn gwneud penderfyniadau a gweithio'n annibynnol yn dda tu fewn yr adeilad ac yn yr ardal allanol. Mae bron pob un plentyn yn ymgymryd yn frwdfrydig i'r ystod eang o

weithgareddau a ddarperir ar eu cyfer, sy'n datblygu eu medrau creadigol a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas yn llwyddiannus.

**Lles: Da**

Mae gan bron pob un plentyn dealltwriaeth dda, yn unol â'u hoedran, o sut gallant gadw'n iach. Gwyddant, er enghraifft, pryd mae angen iddynt olchi eu dwylo gan wneud hyn heb fawr o ymyrraeth. Mae gan bron pob un plentyn dealltwriaeth dda bod deiet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau. Maent yn trafod a mynegi barn am ffrwythau gwahanol yn hyderus, gan feddwl yn glir am eu dewisiadau unigol a'u barnau personol.

Mae agwedd bron pob un plentyn at eu dysgu yn dda. Maent yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn y gweithgareddau a chynllunnir ar eu cyfer tu fewn y caban ac yn yr ardal allanol. Mae bron pob un plentyn yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau arwyddocaol o amser ac yn gwneud penderfyniadau yn annibynnol. Gwelir hyn wrth iddynt wrando'n astud ar stori a dyfalbarhau gyda gweithgareddau allanol fel creu a chwythu swigod.

Mae'r holl blant yn uniaethu â'i gilydd ac oedolion ac ymwelwyr yn dda. Maen nhw'n gwrtais, yn ystyriol ac yn barod i rannu adnoddau. Maent yn cymryd eu tro yn dda wrth iddynt wisgo'u cotiau i adael yr adeilad. Mae'r holl blant yn cymryd rhan lawn ym mywyd a gweithgareddau'r cylch trwy gynnig syniadau a heriau i'r oedolion. Cânt gyfleoedd gwerthfawr i awgrymu eu syniadau eu hun ac mae'r rhain, lle'n bosibl, yn cael eu cynnwys yn nhasgau a gweithgareddau'r plant i ysgogi'r plant ymhellach.

Mae'r cysylltiadau â'r gymuned yn tynnu sylw'r plant at bobl ac anifeiliaid fel gyrrwyr ambiwlans, ffermwyr, y postmon a chŵn defaid. Mae'r holl blant yn dangos synnwyr o berthyn i'w cymuned, lle maent yn ymweld ag yn gyson trwy deithiau cerdded, carnifal y pentref ac ymweliadau â'r traeth. Mae'r holl blant yn hapus ac maent yn teimlo eu bod yn derbyn gofal da sy'n rhydd o unrhyw ffurf o aflonyddwch.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n dda i ddiwallu athroniaeth cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac i gyflawni'r deilliannau a nodir yn nysgu'r plant. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y plant ac yn cynnwys cyfleoedd cyfoethog ar gyfer datblygu'r medrau ar draws y cwricwlwm.

Gosodir amser yn wythnosol i'r staff gyfarfod i gynllunio'r cwricwlwm. Mae hyn yn darparu'r plant â gweithgareddau defnyddiol a diddorol. Mae'r cwricwlwm yn hyblyg, yn briodol ac yn gysylltiedig â diddordebau'r plant. Fodd bynnag, nid ydy'r cynllunio o'r meysydd dysgu yn sicrhau fod plant yn cael eu herio'n briodol yn y gweithgareddau ffocws ar bob achlysur.

Caiff cyfleoedd gwerthfawr eu cynnwys yng ngwaith dyddiol y cylch er mwyn i'r plant ddatblygu eu hunan hyder ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Er bod gweithgareddau penodol wedi'u cynllunio, mae gan y plant y rhyddid i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hun, yn enwedig yn yr ardal allanol.

Darperir gweithgareddau da i'r plant i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol o lythrennedd, rhifedd, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd, datblygiad corfforol a chreadigaeth. Cymraeg yw iaith naturiol y cyfathrebu rhwng yr oedolion a'r plant ar bob achlysur ac yn agwedd effeithiol iawn ym mhrofiadau dysgu'r plant. Trwy gyfleoedd cydlynus, mae pob un plentyn, beth bynnag bo'u cefndir, yn dangos eu bod yn mwynhau siarad yr iaith.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth y plant yn dda ac mae'r staff yn gyson gyfeirio'r plant tuag at ddefnyddio'r cyfarpar technolegol. Mae gan blant llawer o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau heriol fel adeiladu â blociau a darganfod rhifau yn y tywod. Mae'r gweithgareddau yma'n canolbwyntio ar bob ardal dysgu yn eu tro.

Rhoddir pwyslais addas ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel, wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Darperir cyfleoedd da hefyd i'r plant i ddysgu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill, fel, drwy astudio'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae gweithgareddau tebyg, sy'n cynnwys blasu bwyd a gwisgo i fyny, yn helpu'r plant i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r byd ehangach. Mae'n gwella'u hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang, sy'n briodol i'w hoedran, yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth bwrpasol yn cynnwys cyfleoedd i'r holl blant ddatblygu parch at ei gilydd; cyfleoedd i ffurfio perthynas dda â'i gilydd ac oedolion; a chyfleoedd iddynt fod yn oddefgar o'i gilydd. Gwelir hyn yn effeithiol wrth i'r plant arllwys llaeth i'w gilydd ac wrth iddynt rhannu'r teganau mawr yn synhwyrol yn yr ardal allanol.

Mae cyfleoedd da i'r holl blant i godi blodau a llysiau yn yr ardd ac mewn ardaloedd tyfu blodau o gwmpas y caban. Maent yn hau hadau a gofalu am lysiau fel moron a thatws. Mae cyfleoedd da ar gael i'r plant i ail-gylchu papur a bwyd sy'n wastraff mewn biniau penodol yn y caban. Mae hyn yn dechrau eu dealltwriaeth am dyfiant planhigion a chynaladwyedd yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae gan y staff wybodaeth ymarferol dda o ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas positif iawn rhwng yr holl staff a'r plant.

Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel o'r plant ac mae'r disgwyliadau yma yn cael eu gwireddu yn ymarferol dda. Mae rôl weithredol gan y staff wrth gynllunio'r cwricwlwm a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd. Fodd bynnag, wrth gyflwyno gweithgareddau ffocws, nid oes cysondeb a chyfeiriadau cyson tuag at yr amcanion dysgu ar bob achlysur.

Mae'r system o rannu dyletswyddau yn sefydlog, sy'n golygu fod y staff yn cyd-weithio'n effeithiol a rhannu gwybodaeth am y plant yn rheolaidd.

Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a'u cyfeirio gan oedolion tu fewn ac yn yr awyr agored. Mae'r holl blant yn cael rhyddid i ddewis rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion neu weithio'n annibynnol. Nid ydy'r staff yn ymyrryd yn ormodol ac maent yn caniatáu amser i bob plentyn ddatrys unrhyw dasg yn annibynnol.

Mae'r staff yn modelu iaith yn effeithiol iawn i lefelau datblygiad y plant ac yn defnyddio cwestiynu yn dda i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Mae'r staff yn annog y plant i werthuso wrth iddynt drafod stori a chwarae rôl. Mae safonau Cymraeg y staff yn dda iawn i anghenion y cylch. Mae'r staff yn darparu amgylchedd ysgogol sy'n sicrhau'n llwyddiannus bod pob plentyn yn cymryd rhan ac yn mwynhau. Maent yn bositif iawn wrth i'r plant gyrraedd ac yn parhau â'r brwdfrydedd yma trwy gydol y sesiynau.

Mae'r gweithdrefnau asesu a chofnodi cyflawniadau'r plant yn cael eu cwblhau'n effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, er bod asesiadau yn eu lle ac maent yn cael eu cwblhau'n drwyadl ac effeithlon; nid yw'r asesiadau dyddiol yn arwain, gyda digon o fanylder, yn uniongyrchol at dargedau plant unigol.

Mae cofnodion o gyflawniadau'r plant ar gael i rieni ar unrhyw amser ac maent yn cael eu trafod ymhellach yn nosweithiau rhieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth y cylch ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant yn dda. Mae'r holl blant yn mwynhau eu hamser yn y cylch. Wrth gyrraedd, mae bron pob un plentyn yn dangos synnwyr o ddisgwyliad ac maent yn awyddus i gymryd rhan. Maen nhw'n ymgymryd yn frwdfrydig â'r gweithgareddau a osodir ar eu cyfer yn yr amser chwarae rhydd ar ddechrau'r sesiwn.

Mae'r cwricwlwm eang yn datblygu ac yn ymestyn profiadau'r plant yn dda. Mae hyn yn cynnwys ymwelwyr o'r gymuned fel ffermwyr, y postmon a'r gwasanaeth ambiwlans. Mae'r cylch hefyd yn ymweld â'r gymuned yn gyson trwy deithiau i'r traeth lleol, crwydro ar hyd llwybrau natur ac ymweld â busnesau'r pentref a'r ardal gyfagos.

Mae'r gwaith dilynol yn y dosbarth yn dangos yr ystod eang o brofiadau sy'n codi o'u gweithgareddau. Mae'r ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr i'r cylch yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'u cymuned yn effeithiol.

Mae darpariaeth dda gan y cylch ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch, parch a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir yn cael eu meithrin drwy'r weithgareddau dyddiol ac yn cael eu derbyn yn ddiau. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i fyfyrio, trafod teimladau a gweddïo.

Mae'r holl blant yn gwybod, deall ac yn derbyn y safonau cymdeithasol o gyd-fyw, rhannu a derbyn barn eraill fel aelodau o gymdeithas. Mae plant unigol, yn eu tro, yn derbyn cyfrifoldebau penodol, fel tacluso adnoddau a chyfarpar a pharatoi diod a llaeth ar gyfer eraill. Mae hyn yn datblygu eu hunan barch. Mae'r cylch yn uned drefnus, lle mae plant yn parchu ei gilydd ac maen nhw, yn eu tro, yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn gan y staff.

Mae datblygiad diwylliannol y plant yn dda, sy'n cynnwys arferion a thraddodiadau Cymreig ac mae'n ymestyn i ddiwylliannau eraill wrth i'r plant ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae staff y cylch yn wyliadwrus wrth nodi plant sydd angen cymorth arbenigol. Maent yn gwneud defnydd o gymorth ac arweiniad proffesiynol yn effeithiol pan bo'r angen. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd a phriodol ac mae dyletswyddau penodol gan bob un sydd wedi'u nodi gan y pwyllgor rheoli.

Mae gan y cylch bolisi priodol ar gyfer diogelu a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae'r cylch yn ddiogel, lle mae'r drws i'r caban ar glo a dim ond aelod o staff sy'n eu hagor, felly, nid oes neb yn medru dod i mewn na'r un plentyn yn medru gadael heb gwmni. Mae'r caban a'i ardal allanol wedi ei gwmpasu â ffens sydd tu fewn i ffiniau'r ysgol. Mae'r gât rhwng caeau'r ysgol ac ardal allanol y cylch yn cael ei gau cyn dechrau'r sesiwn. Mae gofal da yn cael ei gymryd wrth i'r plant gael eu casglu er mwyn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr adnabyddus.

Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau bod unrhyw blentyn sy'n cael ei amau o fod angen cymorth ychwanegol, naill ai'n academaidd neu'n gorfforol, yn cael ei nodi a bod cynnydd yn cael ei fonitro'n agos. Mae'r pwyllgor rheoli yn nodi mai arweinydd y cylch yw'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol. Mae hi'n gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plentyn tebyg.

Yn y gorffennol, defnyddiwyd asiantaethau allanol ar gyfer plant penodol a darparwyd cefnogaeth iddynt yn ôl eu anghenion. Ar hyn o bryd, nid oes yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r cylch, drwy y gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a mabwysiadir gan y staff yn hyrwyddo ethos positif iawn. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael i'w adnabod, yn enwedig ar lefel cymdeithasol. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm ysgogol, sy'n cael ei gefnogi gan ardal allanol diddorol a defnyddiol dros ben.

Mae'r awyrgylch cartrefol a chyfeillgarwch y staff yn sicrhau bod agwedd oddefgar yn treiddio drwy'r cylch. Mae'r cylch yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Maent yn dilyn strategaethau'r awdurdod lleol yn effeithiol ac yn datblygu'r agwedd yma, sydd wedi'i nodi yn y cynllun gwella, yn dda. Mae pob plentyn yn mwynhau cyfleoedd cyfartal, gyda'r merched a'r bechgyn yn cyd-weithio'n dda ar bob mathau o dasgau yn synhwyrol â'i gilydd.

Mae gan staff y cylch cymwysterau a phrofiad da ac mae cymhareb oedolyn i blentyn ffafriol iawn yn bodoli. Cyflogir staff llanw pan mae nifer y plant yn codi'n uwch na'r disgwyl i sicrhau gofal a chymorth priodol. Defnyddir arbenigedd staff yn dda wrth gynllunio â'i gilydd ac wrth oruchwylio gweithgareddau tu fewn a thu allan. Mae'r cylch yn defnyddio'i adnoddau yn dda i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o annibyniaeth a chyfrifoldeb. Mae'r adnoddau wedi eu rhannu'n dda rhwng y gweithgareddau parhaus a'r tasgau ffocws. Mae cysondeb i'r broses yma am fod y plant yn gwybod i ble i fynd i ddefnyddio'r cyfarpar priodol i gwblhau'u tasgau'n llwyddiannus.

Defnyddir yr amgylchedd lleol yn effeithiol trwy ymweliadau i fusnesau cyfagos a'r ardal leol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn ac yn cyd-weithio'n dda fel tîm gan rannu gwerthoedd, amcanion a nodau. Mae'r arweinydd yn cynnwys y staff, rheolwyr a chynrychiolwyr o asiantaethau allanol yn y cynllunio. Mae'r arfer yma yn sicrhau'r defnydd gorau o'u harbenigedd. Mae'r arweinydd yn cyfrannu'n weithredol drwy roi cyfarwyddiadau clir ac wrth derbyn cyngor pan bo'r angen. Mae'r ymrwymiad yma yn arwain at synnwyr o bwrpas i waith y cylch. Ceir yma ethos positif a gweledigaeth i ddarparu'r profiadau gorau posibl i'r plant.

Mae'r cynllun datblygu'n nodi'n effeithiol ar beth sydd angen i wneud er mwyn i'r cylch i wella. Mae'n deillio o hunan arfarniad y cylch a'i hadroddiad blynyddol cynhwysfawr ar gyfer yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Mae'r arweinyddiaeth a'r staff yn canolbwyntio'n dda ar anghenion plant ac mae'r cylch yn cyflawni hyn yn llwyddiannus ac ymarferol. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol sy'n effeithio'n dda ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r pwyllgor rheoli yn sicrhau fod hyfforddiant staff yn uchel ar ei agenda wrth iddynt ganolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth.

Ceir cysylltiadau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Maent yn cael eu hysbysu'n dda o gyflawniad a chynnydd eu plant sy'n eu helpu i gefnogi dysgu eu plant. Nid oes un rhiant yn awgrymu unrhyw beth i wella'r ddarpariaeth yn yr holiaduron ac maent yn gefnogol dros ben at sut mae'r cylch yn cael ei harwain.

Mae strwythur rheoli yn bodoli sydd wedi'i sefydlu'n dda gyda diffiniad clir o ddyletswyddau. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn dyletswyddo cyfrifoldebau yn effeithiol i eraill pan bo eisiau gwneud. Mae'r pwyllgor rheoli yn arwain yn dda iawn ac yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol. Maent yn drwyadl iawn yn eu gwaith ac mae eu systemau rheoli yn cwrdd â gofynion cyfreithiol yn llawn.

Mae'r cylch wedi rhoi ystyriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal, gwneir defnydd da iawn o gyfleoedd i weithio gyda'r ysgol leol, y Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol i sicrhau cysylltiadau effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r cylch yn hunan arfarnu'n dda ac yn plethu'n effeithiol ei hadroddiad blynyddol i'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru â'i hunan arfarniad. Maent yn nodi meysydd i wella trwy eu gweithredu er lles y plant. Maent yn cynnwys ariannu adnoddau dynol a chyfarpar yn effeithiol, gwella adnoddau darllen, codi ymwybyddiaeth y staff o strategaethau ymddygiad cadarnhaol a datblygu ymhellach y cysylltiadau da sy'n bodoli â'r gymuned.

Mae'r ardaloedd i wella yn cael eu targedu yn effeithiol a chynnil yn erbyn meini prawf llwyddiant yng nghynlluniau datblygu'r cylch. Mae'r cynlluniau datblygu yn deillio'n uniongyrchol o ganfyddiadau'r broses hunan arfarnu ac maent yn cael blaenoriaeth yn natblygiad y cylch. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn trafod y broses yn hyderus, gyda dealltwriaeth glir.

Mae'r staff wedi gwneud defnydd da o gyfleoedd hyfforddi a phrofiadau dysgu proffesiynol dan arweiniad y pwyllgor rheoli, sy'n cynnwys cymwysterau galwedigaethol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r rhieni, yn yr atebion i'r holiaduron, mewn sylwadau a thrafodaethau, yn mynegi eu boddhad llwyr â'r cylch ac yn gwerthfawrogi'r safonau o ofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael yn fawr iawn. Nid oes un awgrymiad gan unrhyw rhiant ar sut i wella'r cylch yn y nifer fawr o holiaduron a ddaeth yn ôl. Maent yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â'r staff.

Erbyn i'r plant adael y cylch, mae'r rhieni yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn yr ysgol sy'n rhannu'r adeilad a'r safle. Mae'r cysylltiadau rhwng y cylch a'r ysgol leol yn dda iawn, oherwydd eu bod yn cyd-weithio'n gyson effeithiol â'i gilydd.

Mae'r cysylltiadau a'r gefnogaeth a ddarperir gan y Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol yn dda ac mae nodiadau rheolaidd ar gael o ymweliadau a thrafodaethau buddiol. Mae'r cyngor a'r awgrymiadau yn gymorth i symud y cylch ymlaen ac yn cyfrannu at y safonau da o ddarpariaeth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae staff y cylch yn addysgu'n dda ac yn cyd-weithio'n effeithiol. Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol dros ben ac yn targedu gwelliannau'n effeithiol trwy glustnodi arian ar gyfer yr anghenion pwysig fel adnoddau dynol da a chyfarpar ysgogol. Mae gan y cylch ddigon o adnoddau ac fe'u defnyddir yn effeithiol i hyrwyddo amcanion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Hefyd, mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant sy'n annog annibyniaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu.

Mae'r cylch yn defnyddio'r adeilad a'r ardal allanol yn effeithiol iawn a darparu profiadau diddorol, sy'n cael eu cynllunio'n dda. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor yn arwain yn effeithiol a defnyddio asiantaethau cynorthwyol yn bwrpasol er lles y plant. Wrth ystyried cyflawniad a chynnydd y plant o'u mannau cychwyn, y ddarpariaeth ar gyfer y plant ac ansawdd yr arweinyddiaeth; mae'r cylch yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Ymatebodd 21 o rieni a gofalwyr i’r holiaduron. Mae’r holl rieni a’r gofalwyr yn gadarnhaol iawn am holl waith y cylch.

Mae pob un yn cytuno’n gryf a chytuno fod:

- bodlonrwydd ganddynt am y cylch yn gyffredinol;
- cymorth i’r plant i ymgartrefu'n dda;
- amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau;
- eu plant yn hoffi'r cylch;
- eu plant yn gwneud cynnydd da;
- yr addysgu'n dda;
- y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu plant yn ddiogel;
- cymorth ychwanegol priodol ar gael os oes angen;
- nhw'n deall trefn y cylch ar gyfer delio â chwynion;
- y cylch yn cael ei redeg yn dda.
- y plant yn ymddwyn yn dda;
- nhw'n teimlo’n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r cylch, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- eu plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol; ac
- eu bod nhw’n cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant.

Mae’r ymatebion yma’n cymharu’n ffafriol iawn gyda chymariaethau meincnodol cenedlaethol.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae’r holl blant yn hapus yn y cylch. Mae eu brwdfrydedd yn amlwg wrth iddynt gyrraedd a chwrdd â’u cyfoedion. Mae bron pob un ohonynt yn hunan hyderus wrth wybod eu bod yn cael eu cefnogi’n dda a bod ganddynt dasgau diddorol a heriol.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i’r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy’n anelu at roi’r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau’r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |